Bwletin Iechyd, Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

Mawrth 2010
Rhifyn 31

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun LL15 1AF

Ffôn: 01824 702441
Ffacs: 01824 705412

e.bost office@dvsc.co.uk

Newvol - Cwmni cyfyngedig drwy warant 3132487
Elusen Gofrestredig 1054322

Prif Swyddog Gweithredol
John Watkin

Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lindsay Haveland

Newidiadau ym Myd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'n gyfnod o newidiadau mawr. Mae'r dirwasgiad yn debygol o orfodi'n partneriaid statudol i gwtogi ar eu gwasanaethau rheng flaen a gofyn i'r Trydydd Sector gasglu'r darnau. A'r tebygrwydd yw bydd toriad yn yr ariannu hefyd!

Yn rhanbarthol mae ailstrwythuro'r wyth corff iechyd i fewn i un yn parhau i achosi cyffro, ag yn lleol mae ceisio datblygu ffyrdd newydd ag arloesol o sicrhau fod iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n agosach yn dadorchuddio problemau na wyddid amdanynt cynt.

Felly, beth am ddod i gyfarfod o Rwydwaith Sector Gwirfoddol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yng Nghanolfan Naylor Leyland, Rhuthun am 10.15 yb **Dydd Mercher, 14eg Ebrill** i weld beth yn union sy'n digwydd o fewn iechyd a gofal cymdeithasol ag i drafod atebion posib.

Rhowch wybod i Lindsay Haveland lindsay@dvsc.co.uk neu JoAnne Williamson joanne@dvsc.co.uk cyn gynted â phosib os hoffech fynychu. Ffôn: 01824 702441

Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc

Mae rhestr dyddiadau Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc fel a ganlyn:- Dyddiau Mawrth 11 Mai, 13 Gorffennaf, 5 Hydref a 14 Rhagfyr. Mae'r lleoliadu i'w cadarnhau.

Mae cyfarfodydd y Rhwydwaith yn agored i unrhyw un sy'n gweithio â phlant neu bobl ifanc yn y Sector Gwirfoddol yn Sir Ddinbych. Bydd cyfarfodydd yn dechrau am 3.30yp gyda lluniaeth ysgafn, ag am 5 o'r gloch bydd awr gyda Rhwydwaith Ymarferwyr Gwaith Ieuenctid, gyda chroeso i unrhyw un sy'n gweithio neu sydd â diddordeb mewn gwaith ieuenctid i fynychu.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Suzanne 01824 702441 - e.bost: Suzanne@dvsc.co.uk

Digwyddiadau polisi rhanbarthol Ebrill

Trefnir gan WCVA ar y cyd â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol

Gogledd Cymru - Dydd Gwener 30 Ebrill 2010, Neuadd Morfa, Y Rhyl

Uned Cofnodion Troseddol ac Awdurdod Diogelwch Annibynnol

Bydd digwyddiadau polisi rhanbarthol mis Ebrill yn canolbwyntio ar y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd. Bydd y digwyddiadau hyn yn ddefnyddiol iawn i fudiadau sy'n cael eu heffeithio gan archwiliadau cofnodion troseddol.

Bydd yno gyflwyniad gan VBS Communications, sesiwn holi ac ateb, a chyfle i fynd i grwpiau gweithdai llai.

Am ragor o fanylion ☎ Llinell Gymorth WCVA ar 0800 288 8329 / e.bost help@wcva.org.uk

Dychwelwch y ffurflen bwcio ynghyd â £12.00 y pen i Francesca Hughes, ebost fhughes@wcva.org.uk cyn dydd Gwener 9 Ebrill.

Profiad Parch mewn Gofal

Dydd Iau, 25 Mawrth 2010, 10am - 3pm
Y Faenol Fawr, Bodelwyddan.

Darperir lluniaeth a chinio ysgafn.

Mae hwn yn gyfle i staff rheng flaen a phobl hŷn gyfenwid profiad, lle gallwn ystyried ffyrdd o ddathlu ymarfer da wrth ddarparu gofal a hyrwyddo hynny i sicrhau ei fod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

I gael mwy o wybodaeth neu i drefnu lle e-bostiwch becky.woodcraft@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01824 706604

Mae WCVA wedi lansio eu Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru a gefnogir eleni gan CCLA Investment Management Ltd.

Ynghyd â chydnabyddiaeth i unigolion, pobl ifanc (dan 25 oed), a grwpiau mae'r cynllun yn gwobrwyo gwirfoddolwyr 'gwyrdd' ag ymddiriedolwyr. Bydd hyd at dri enillydd ym mhob categori gyda 15 o enillwyr cenedlaethol yn cael eu cyflwyno â'u gwobrau mewn seremoni yng Nghaerdydd ym mis Mehefin, a phob un a enwebir yn derbyn tystysgrifau canmoliaeth mewn seremonïau lleol neu drwy'r post.

Mae manylion am y cynllun ar gael ar Linell Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, neu e-bost help@wcva.org.uk.

Yn ogystal mae'r ffurflenni enwebu ar gael i'w lawr lwytho oddi ar y wefan www.wcva.org.uk/voty. Dyddiad cau derbyn enwebiadau yw 23 Ebrill 2010.

Eich Cymuned - Eich Barn

Cyfle i chi gael dweud eich dweud am wasanaethau cyhoeddus lleol mewn cyfres o fforymau cymunedol a gynhelir yn Sir Ddinbych. (rhai wedi'u cynnal eisoes)

Trefnir y digwyddiadau gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Ddinbych - partneriaeth o nifer o fudiadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws y Sir.

Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau yn uniongyrchol i banel fydd yn cynnwys Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych ac uwch swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ag Achub Gogledd Cymru, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
Cynhelir y digwyddiadau fel a ganlyn:

ARDAL	LLEOLIAD	DYDDIAD	AMSER
Prestatyn	Sinema Scala, Prestatyn	22 Mawrth 2010	7-9pm
Dinbych	Eirianfa, Dinbych	25 Mawrth 2010	7-9pm
Y Rhyl	Canolfan y Dderwen, Y Rhyl	29 Mawrth 2010	7-9pm
Dyffryn Dyfrdwy	Pafiliwn Chwaraeon, Corwen	7 Ebrill	7-9pm

Am fanylion pellach cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebiad Cyhoeddus ar 01824 706222/706125/706007

Cylchgrawn newydd i'r Ifanc

Mae cylchgrawn chwarterol newydd ar gael i bobl ifanc yn Sir Ddinbych.

Mae'r cylchgrawn YouthDen.com yn llawn gwybodaeth a phethau i wneud i bobl ifanc dan 25 oed ynghyd â rhoi gwybod i bobl am y diweddariadau i wefan YouthDen.

Dywedodd cydlynydd YouthDen, "'Rydym eisiau dod a'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan i gynulleidfa ehangach, yn cynnwys y rhai sydd heb gyrchiad hawdd i'r rhyngrwyd. Gobeithiwn godi ymwybyddiaeth am yr amrediad eang o wybodaeth ac awgrymiadau am weithgareddau sydd ar gael ar fersiwn ar-lein o YouthDen.

Mae'r cylchgrawn YouthDen ar gael yn rhad ag am ddim yn llyfrgelloedd y Sir, llyfrgelloedd ysgolion, canolfannau hamdden a chanolfannau ieuenctid."

Am ragor o fanylion, ebostiwch youthinfo@denbighshire.gov.uk.

Cri am Wirfoddolwyr ar daith Feicio Gogledd Cymru

Mae Sefydliad Prydeinig y Galon yn chwilio am Wirfoddolwyr i helpu ar Daith Feicio Gogledd Cymru ar ddydd Sul 9 Mai 2010. Oes gennych chi amser i helpu'r Sefydliad i drechu clefyd y gallon yng Ngogledd Cymru?

Tasgau Gwirfoddolwyr

Mae nifer o dasgau yn cynnwys:

- Rhannu dŵr a bagiau nwyddau i gyfranogwyr ar y llinell gychwyn / diwedd yn Arena Y Rhyl
- Helpu ar y llinell gychwyn gyda'r broses cofrestru
- Gwirfoddolwyr diod ar hyd y daith.

Fydd Gwirfoddolwyr yn cael eu talul?

Yn anffodus, na, fel elusen nid ydym yn gallu talu unigolion na grwpiau ond bydd pob gwirfoddolwr yn derbyn pecyn bwyd a diod am y diwrnod.

Pa oed sydd raid bod?

Rhaid i wirfoddolwyr fod dros 16.

Am ba mor hir fydd raid i mi wirfoddoli?

Bydd y daith yn cychwyn yn Arena Gweithgareddau Y Rhyl am 0900 felly bydd angen gwirfoddolwyr o 0900 tan tua 1600. Er hyn os mai dim ond awr neu ddwy sydd gennych i sbario byddem yn falch o'ch gweld.

Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â Hannah Townsend (Trefnydd Gweithgareddau) ar 029 20 382 403 neu e.bost townsendh@bhf.org.uk

Grantiau One Planet Living B & Q

Mae Grant One Planet Living B&Q (OPL) yn cynnig rhwng £50 a £250 o ddefnyddiau B&Q i ysgolion, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol ar gyfer prosiectau cynaliadwy tymor hir. Rhaid i'r prosiectau ymwneud ag o leiaf un o'r themâu canlynol: arbed ynni; cadwraeth natur, tyfu eich cynnyrch eich hun; hybu diwylliant a threftadaeth leol. Rhaid i geisiadau gael eu gwneud gan ysgolion, mudiad elusennol cofrestredig neu grŵp cymunedol cydnabyddedig arall, e.e. cymdeithas preswylwyr, canolfannau ieuenctid, sgowtiaid, geidiaid. Gall prosiectau wneud cais am grant rhwng 1 Chwefror a 30 Medi 2010 a rhaid i'r prosiectau llwyddiannus gasglu eu defnyddiau erbyn 31 Hydref 2010. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr gysylltu â hyrwyddwr amgylcheddol neu reolwr eu siop B&Q leol i drafod manylion y prosiect. Mae manylion pellach ar gael yn http://www.diy.com/diy/jsp/corporate/content/environment_ethics/ethics/community/grants.jsp (Ffynhonnell: e.bwletin CGGC cylchlythyr Fit5Funding, Mawrth 2010)

Ymgyrch Hyder Mewn Gofal

Ar hyn o bryd mae Cyngor Gofal Cymru yn cynnal ymgyrch 'Hyder Mewn Gofal'. Nod 'Hyder mewn Gofal' yw codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o swyddogaeth y Côd Ymarfer i Weithwyr Gofal Cymdeithasol, er mwyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth i ledaenu negeseuon yr ymgyrch i gynulleidfa mor eang â phosib - i bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, pobl sy'n gweithio yn y sector neu aelodau o'r cyhoedd. Rhagor o fanylion ar www.ccwales.org.uk/registration-and-conduct/confidence-in-care/confidence-in-care-campaign

Gwobrau Iechyd Integredig

Mae Sefydliad y Tywysog er Iechyd Integredig wedi bod yn rhoi sylw i gynlluniau gofal iechyd arloesol a hygyrch ers 2005 drwy gyfrwng y Gwobrau Iechyd Integredig. Drwy dynnu sylw at brosiectau ac ymarferwyr enghreifftiol mae'n gobeithio annog ehangu iechyd integredig. Yn 2010, gwahoddir ceisiadau am y gwobrau canlynol: cylch bywyd; gwlad; goroeswyr; gwobr traethawd gan fyfyriwr; ymarfer sy'n seiliedig ar gomisiynu; gwobr ymddiriedolaeth gofal sylfaenol. Y nod yw dathlu ymagweddau arloesol tuag at iechyd a lles. I wneud cais, llwythwch y ffurflen gais i lawr o http://www.fih.org.uk/what_we_do/integrated_health_awards/integrated_health_awards_2010/index.html ei llenwi a'i dychwelyd erbyn 6.00 pm ar 1 Mai 2010, i awards@fih.org.uk. Mae'n well ganddynt dderbyn ceisiadau electronig.

Cymhorthfa Cyngor Ariannu Lloyds TSB

Bydd Rheolwr Grantiau Gogledd Cymru, Sefydliad Lloyds TSB ar gael yn swyddfa CGGSDd yn Rhuthun ddydd Mercher 28 Ebrill, 2010, i gyfarfod ag elusennau lleol sy'n dymuno gwneud cais i'r Sefydliad i ariannu eu gwaith.

Cenhadaeth y Sefydliad yw .. i helpu'r rhai sydd mwyaf difreintiedig i chwarae rhan helaethach yn eu cymunedau.. ac mae'n ariannu elusennau cofrestredig gydag incwm o lai na £1,000,000 os yw eu gwaith neu brosiect yn unol â'u cenhadaeth. Mae'r grantiau ar gyfer costau refeniw, a gellir cyfarfod â chostau craidd.

Trefnir y sesiwn ar sail apwyntiadau yn unig i sicrhau fod y rhai sydd â diddordeb yn cael digon o amser i drafod eu cynigion, ag ni allwn warantu fod rhai sy'n troi i fynnu heb wneud apwyntiad yn cael eu gweld.

I drefnu eich apwyntiad ffoniwch Cerys Thomas ar 07500 787749, cyn 21 Ebrill, 2010, ag i gael rhagor o fanylion an waith Sefydliad Lloyds TSB, ewch i www.lloydstsbfoundationsorg.uk

Cyfleusterau arfordirol

Cwrs achub bywyd ar y traeth (NBLQ)

Cynhelir elfennau A hyd E o'r cwrs ar brom Y Rhyl a Chanolfan Hamdden Y Rhyl o ddydd Llun 19 Ebrill 2010.

Rhoddir prawf o 1 awr ar ddydd Sul 11 Ebrill 2010

Rhaid cael presenoldeb 100% ar y cwrs. ***Cost y cwrs yw £230.00***

Cwrs dwys am wythnos gydag asesiadau ddydd Gwener 23 Ebrill 2010.

Gofynion y cwrs fydd:

- Rhaid i chi fod yn 16 oed a gallu dweud "ie" i'r pwyntiau isod
- Neidio /deifio i ddŵr dwfn
- nofio 400m o fewn amser a argymhellit o 8 munud neu lai
- nofio 200m yn barhaus ar eich cefn a'ch brest
- Rhedeg o leiaf 400 metr
- Deifio o'r wyneb i bellter o hyd at 2 metr.

Mae'n cynnwys y deunyddiau hyfforddi perthnasol a'r asesiadau ond bydd gofyn i ymgeiswyr ddod a'u gwisg wlyb eu hunain i'w defnyddio yn ystod y cwrs.

I gael mwy o wybodaeth neu i drafod lle ffoniwch

Ian Olson ar 01824 70 8411 neu e-bostiwch ian.olson@sirddinbych.gov.uk

Cyflwyniad ymarferol I hawliau dynol a chydraddoldeb

Newydd i CGGC – cyflwyniad i hawliau dynol a chydraddoldeb yn y Trydydd Sector a'r sector gyhoeddus. Archebwch eich lle nawr er mwyn osgoi cael eich siomi ar y cwrs undydd hwn.

Cysylltwch â'r ddesg gymorth ar 0800 2888 329 neu e-bost help@wcva.org.uk

Dyddiad: 30 Ebrill , **Y Rhyl**
Mudiadau Gwirfoddol/Cymunedol £ 155
Eraill - £185.00

Bydd y cwrs hyfforddi undydd hwn yn cyflwyno syniadau, egwyddorion a safonau sy'n ymwneud â hawliau dynol ac yn archwilio sut y maent yn berthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru.
Mae'r cwrs yn addas ar gyfer unigolion sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb yn y trydydd sector ac yn y sector cyhoeddus. Bydd y cwrs yn galluogi cyfranogwyr i ddeall sut y gall hawliau dynol fod yn ddull ymarferol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais a datblygu agwedd seiliedig ar hawliau dynol yn eu gwaith.

Canlyniadau'r Dysgu:

- Deall egwyddorion a safonau craidd hawliau dynol
- Deall prif ddiben a nodweddion deddfwriaeth hawliau dynol sy'n berthnasol i Gymru ac i'r DU, yn enwedig y Ddeddf Hawliau Dynol
- Cael gwell dealltwriaeth o sut y mae hawliau dynol yn berthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Cael mwy o hyder i godi pryderon ynghylch hawliau dynol a chanfod materion o ran hawliau dynol yn eu gwaith

Bydd y cwrs yn rhyngweithiol ac yn defnyddio cymysgedd o gyflwyniadau, trafodaethau, gweithgareddau grŵp ac astudiaethau achos

Cwmni Ynni Scottish a Southern yn gostwng eu biliau

Newyddion da i'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn cefnogi'r ymgyrch 'PrePay Meter Campaign.'

Mae'r cwmni wedi dilyn galwadau'r rheolydd a grwpiau defnyddwyr drwy ddiddymu'r gwahaniaeth yn y gost o dalu am nwy ymlaen llaw. Bydd defnyddwyr y mesurwyr talu ymlaen llaw yn gweld gostyngiad, ar gyfartaledd, o tua £70 y flwyddyn. Gobeithio'n wir bydd y cwmnïau eraill yn gwneud yr un peth yn fuan iawn.

Gwefan Cynllun Gwirfoddoli'r Ifanc ar ei newydd

Mae'r fenter GwirVol i Wirfoddolwyr ifanc yng Nghymru wedi ailwampio eu gwefan www.gwirvol.org, ag fe'i lansiwyd ddydd Mercher, 27 Ionawr. Anelir y wefan ar ei newydd wedd at wirfoddolwyr rhwng 16-25 a'r grwpiau sy'n ymwneud â hwy – neu sy'n bwriadu gwneud yn y dyfodol.

Bydd GwirVol yn diweddaru'r wefan yn gyson i ddarparu mwy o gefnogaeth, cyngor, a hwyl i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ymysg yr ifanc. Os hoffech yrru eich newyddion, hyrwyddo eich digwyddiadau ewch i www.GwirVol.org. Mae hefyn yn bosib eu dilyn ar twitter www.twitter.co.uk/gwirvol ag ymuno â'n grŵp facebook www.facebook.com

Cymdeithas Tai yn Addo Peidio Goddef Hiliaeth

Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn sy'n rheoli mwy na 5000 o gartrefi ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi dweud y byddant yn parhau gyda'u polisi o Ddim Goddefgarwch i ymddygiad gwrth gymdeithasol ag y byddant yn gweithredu'n gadarn mewn unrhyw achos o hiliaeth.

"Ni fydd cam-drin hiliol yn cael ei oddef ar unrhyw lefel. Fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig mae Clwyd Alyn yn cymryd cyfrifoldeb i denantiaid yn ddifrifol iawn ac fe wnawn gefnogi ein tenantiaid bob cam o'r ffordd i sicrhau nad ydynt yn goddef ymddygiad o'r fath," meddai Tracey Shenton, Cydlynydd Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, sy'n rhan o'r Grŵp Tai Pennaf.

"'Roedd hwn yn achos arbennig o ddifrifol a arweiniodd i euogfarn droseddol. 'Rydym yn falch fod gorchymyn deng mlynedd wedi ei roi allan sy'n golygu fod ein tenantiaid yn mynd i gael heddwch i ddilyn cyfnod sydd wedi bod yn anodd iawn iddynt".

Ychwanegodd Tracey Shenton "Bydd Clwyd Alyn bob amser yn gweithio i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i'r rhai sy'n dioddef effeithiau ymddygiad gwrth gymdeithasol. 'Rydym yn monitro'n gwasanaeth yn barhaus ag yn edrych am ffyrdd i wella pan mae angen."

Fe ddaeth y sylwadau ar ôl cefnogi tenantiaid Clwyd Alyn, sy'n byw yn ardal Bwrdeistref Sirol Conwy, oedd yn cael eu herlid gan deulu oedd yn byw'n gyfagos. Mae dau o'r cymdogion, oedd ddim yn denantiaid Clwyd Alyn, wedi cael cyfnod o dair blynedd o garchar am ymosodiad hiliol ffyrnig a Gorchymyn Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol 10 mlynedd sy'n eu gwahardd o'r ystâd yn dilyn eu rhyddhau o'r carchar.

Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn wedi gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chartrefi Housing i weithredu yn erbyn dau gymydog yn sgil yr ymosodiad.

Ymgynghoriadau

Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Cymru) 2010

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ar Reoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Cymru) 2010. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion yw **16 Ebrill 2010**. http://wales.gov.uk/consultations/education/alg/?lang=cy&status=open

Gofal i Gymru - Ymgynghoriad ar Gynhadledd Datblygu Polisi Plaid Cymru

Diben cynhadledd bolisi 'Gofal i Gymru' oedd dwyn ynghyd bobl (yn aelodau Plaid Cymru a chyrff allanol sydd â diddordeb) i drafod sut i ateb yr her o ddarparu gofal gwirioneddol i'n dinasyddion, nid yn unig pobl hyn ond pobl ifanc a'r bobl hynny sy'n ofalwyr eu hunain. Thema ganolog y gynhadledd oedd sut mae cael gwasanaeth i bawb sydd yn darparu gofal digonol i bob un, ledled Cymru, waeth beth fo'r gallu i dalu? Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **26 Mawrth 2010** ar un o'r ffurfiau a ganlyn Cai Jones, Policy Consultation Officer, Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor, Marine Chambers, Cwrt Anson Court, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL. e-bost caijones@plaidcymru.org. http://www.plaidcymru.org/content.php?nID=44;catID=6;pubID=257;lID=1

Pa mor hygyrch yw gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru? **http://www.assemblywales.org/newhome/new-news-third-assembly.htm?act=dis&id=167063&ds=2/2010**

Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd.
Mae Anabledd Cymru yn gwahodd sylwadau ac adroddiadau a fydd yn sail i'w ymateb ffurfiol. Maent yn awyddus i glywed gan bobl anabl sydd â gwahanol namau - namau corfforol neu synhwyraidd, anawsterau dysgu, a phroblemau iechyd meddwl. Hoffent dderbyn eich adborth erbyn dydd Gwener 26 Mawrth. Cysylltwch â Rhyan Berrigan, Swyddog Polisi (Mynediad a Thrafnidiaeth), e-bost rhyan.berrigan@disabilitywales.org Typetalk (18002) 029 20 885 834.
Os hoffech gyflwyno'ch ymateb eich hun, mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Dylid sicrhau bod cyfraniadau'n cyrraedd yn ddim hwyrach na **Dydd Iau 1 Ebrill 2010**. Gellir e-bostio ymatebion at glerc y Pwyllgor equality.comm@wales.gsi.gov.uk neu eu postio i: Clerc y Pwyllgor, Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stryd Pierhead, Caerdydd CF99 1NA.

Cyhoeddi Ymchwiliad Pwyllgor: Byrddau Lleol Diogelu Plant

Bydd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn archwilio pa mor effeithiol yw Byrddau Lleol Diogelu Plant mewn ymchwiliad newydd.
Yn ystod ei ymchwiliad bydd y Pwyllgor yn edrych ar y materion a ganlyn: pa mor briodol yw Polisïau a Chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru o ran bod yn berthnasol i Fyrddau Lleol Diogelu Plant?; pa mor briodol yw cwmpas a ffocws cyfrifoldebau Byrddau Lleol Diogelu Plant?; aelodaeth Byrddau Lleol Diogelu Plant o ran swyddogaeth partneriaid statudol a hefyd y sector gwirfoddol a sefydliadau llai neu arbenigol; trefniadau ar gyfer ariannu Byrddau Lleol Diogelu Plant; perthynas y Byrddau Lleol Diogelu Plant â phartneriaid lleol eraill, yn cynnwys Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Partneriaethau Diogelwch Cymunedol; Byrddau Gwasanaeth Lleol; y timau integredig Cymorth i Deuluoedd arfaethedig; pa mor effeithiol yw Byrddau Lleol Diogelu Plant wrth hyrwyddo diogelwch a lles grwpiau penodol o blant agored i niwed fel plant sydd ag anableddau, plant ceiswyr lloches a phlant a gaiff eu masnachu, plant duon a lleiafrifoedd ethnig?; pa mor effeithiol yw Byrddau Lleol Diogelu Plant yn eu rôl benodol o hyrwyddo cyfrifoldebau rhannu gwybodaeth a dyletswyddau asiantaethau sy'n bartneriaid i Fyrddau Lleol Diogelu Plant?; pa mor effeithiol yw Byrddau Lleol Diogelu Plant o ran cynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith? Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion yw **9 Ebrill 2010**.
http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-hwlg-home/business-hwlg-inquiries/hwlg_lscb/hwlg-lscb-consultationletter.htm

Ystadegau amseroedd aros GIG ar gyfer claf mewnol, achos dydd a chlaf allanol ac angiograffau

Ymgynghoriad i ystyried eich barn am y cynnig i roi'r gorau i gasglu ac adrodd am ystadegau ynghylch amseroedd aros cydrannol cleifion allanol ac achosion dydd/cleifion mewnol y GIG. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion yw **16 Ebrill 2010**.
http://wales.gov.uk/consultations/statistics/nhswaitingtimes/?lang=cy&status=open

Ymgynghori â defnyddwyr ystadegau plant sy'n derbyn gofal 2010

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i chi roi eich barn mewn perthynas ag ystadegau Plant sy'n Derbyn Gofal. Gan gynnwys y datganiad ystadegol 'Prosesau Mabwysiadu, Canlyniadau a Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol', a datganiadau a thablau ar-lein eraill perthnasol. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion yw **24 Mai 2010**. http://wales.gov.uk/consultations/statistics/2010children/?lang=cy&status=open

Am restr gyflawn o Ymgynghoriadau'r Cynulliad ewch i http://wales.gov.uk/consultations/?lang=cy

Gweler hefyd yr adran ymgynghoriadau ar wefan CGGSDd www.dvsc.co.uk